

## HANES - EWROP AC AMERICA

Amser - 90 munud

**Atebwch UN cwestiwn o Adran A ac UN cwestiwn o Adran B.**

---

### **ADRAN A**

1. Ym mha ffyrdd y mae dychymyg yn angenrheidiol i'r hanesydd, ac i ba raddau y mae'n rhaid i haneswyr ffrwyno eu dychymyg?
2. A yw unigolion erioed wedi newid cwrs hanes mewn gwirionedd?
3. A ellir ysgrifennu hanes yn ddiduedd? Os gellir, a ddylid gwneud?
4. 'Eiddo'r buddugwyr yw hanes.' Ydych chi'n cytuno?
5. 'Hogiau a Mapiau.' A yw hynny'n asesiad teg o Hanes Gwleidyddol?
6. A oes gwahaniaeth rhwng hanes a chof?

### **ADRAN B**

#### Y Cyfnod Cynnar a'r Oesoedd Canol

7. Pa ran a chwaraewyd gan oresgyniadau'r barbariaid yng nghwmp yr Ymerodraeth Rufeinig?
8. A yw'r 'Oesoedd Tywyll' yn haeddu eu henw?
9. Pam y rhoddwyd y teitl Ymerawdwr Rhufain i Siarlymaen?
10. Esboniwch pam y tyfodd trefi yn Ewrop yn y canoloesoedd.
11. I ba raddau yr oedd cymdeithas Sisili yn un amlddiwylliannol yn y canoloesoedd?
12. Beth y mae Cronicl Vincent Kadlubek yn ei ddweud wrthym am y gymdeithas yng Ngwlad Pwyl yn y ddeuddegfed ganrif?
13. Pam yr aeth pobl i'r croesgadau?

14. Pa mor 'Gristnogol' oedd y canoloesoedd?

15. I ba raddau yr 'Ewropeiddiwyd' Ewrop yn y Canoloesoedd?

### Y Cyfnod Modern Cynnar

16. Pa ffactorau a arweiniodd at wrthdaro milwrol yn Ewrop yn y cyfnod modern cynnar?

17. A yw'n wir dweud, yn achos y rhai a oedd yn byw yn Ewrop yn y cyfnod modern cynnar, bod bywyd 'yn fyr, yn llym ac anwaraidd'?

18. I ba raddau oedd gwrthryfel Martin Luther yn erbyn Rhufain yn adlewyrchu brwydr i drechu dylanwad tad gormesol?

19. Ym mha ffyrdd y newidiwyd barn Ewropeaid am y natur ddynol gan y mordeithiau Darganfod?

20. Pryd y daeth 'rhyfeloedd crefydd' i ben fel nodwedd o hanes Ewropeaidd?

21. A yw ein golwg ar y gorffennol yn y cyfnod Modern Cynnar yn newid mewn unrhyw ffordd arwyddocaol o astudio hanes menywod?

22. I ba raddau y cafodd yr Hen Fyd ei chwyldroi pan 'ddarganfuwyd' y Byd Newydd?

23. Trafodwch y rhan a chwaraeodd hunaniaeth genedlaethol yn Rhyfel Annibyniaeth America.

24. Beth oedd nodweddion 'unbennaeth oleuedig'? Trafodwch hyn gan gyfeirio'n benodol at o leiaf un 'unben goleuedig'.

25. Beth y mae haneswyr wedi'i ddysgu o astudio hanes troseddu o'r unfed ganrif ar bymtheg i'r ddeunawfed ganrif?

### Y Cyfnod Modern

26. Ym mha ffyrdd y newidiodd natur rhyfela yn Ewrop rhwng Rhyfeloedd Napoleon a'r Rhyfel Byd Cyntaf?

27. Pam yr ystyrir mai'r Chwyldro Ffrengig sy'n nodi dechrau'r cyfnod modern hwyr?

28. Trafodwch gyfraniad un o arweinwyr Chwyldroadol Ffrainc i'r Chwyldro Ffrengig hyd at Thermidor yn 1794.

29. Esboniwch dwf cenedlaetholdeb yn Ewrop yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Atebwch trwy gyfeirio'n benodol at un astudiaeth achos.
30. Esboniwch pam yr unwyd yr Almaen yn 1871.
31. Pam yr aeth Grymoedd Mawr Ewrop i ryfel yn 1914?
32. Pam y dilynwyd Chwyldro mis Chwefror yn Rwsia gan Chwyldro mis Hydref?
33. A oedd polisi tramor Rwsia yn y 1920au yn ymwneud mwy â chwyldro neu â diogelwch?
34. Esboniwch pam y tyfodd Ffasgaeth yn Ewrop ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf.
35. Pam y sefydlwyd Gwladwriaeth Weimar?
36. Pwy bleidleisiodd o blaid y Natsïaid, a pham?
37. Pa mor 'Newydd' oedd y Fargen Newydd?
38. Ai ar orfodaeth neu ar ganiatâd y seiliwyd y Trydydd Reich?
39. Esboniwch pam y rhannwyd yr Almaen yn ddwy wladwriaeth a chanddynt ideolegau gwrthgyferbyniol ym 1949.
40. Pam y codwyd Mur Berlin ym 1961?
41. Pam y dymchwelwyd Mur Berlin ym 1989?
42. Esboniwch lwyddiannau'r mudiad hawliau sifil pobl dduon yn yr Unol Daleithiau yn y 1950au a'r 1960au.
43. I ba raddau mae'r ddadl bod ymyrraeth America yn Fietnam yn ganlyniad anorfod i bolisi cyfyngiant?
44. Pwy enillodd y Rhyfel Oer, a pham?
45. Pam y mae Vladimir Putin wedi gwrthod â chaniatáu i'r wladwriaeth goffáu 100fed Penblwydd y Chwyldro yn Rwsia?